# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2023

Amser: 09.01 - 09.19

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Alun Davidson, Arweinydd Tîm Newid Cyfansoddiadol a Chlerc<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gofal Sylfaenol (30 mun)~~ *Tynnwyd yn ôl*
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 (15 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.40pm.

Gofynnodd Heledd Fychan a fyddai'r Llywodraeth yn gwneud datganiad ar gau rhan o'r A470 yn Nhalerddig ar hyn o bryd. Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes na fyddai datganiad yn cael ei gyflwyno heddiw.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023 –**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)
  - Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023
  - Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023
  - Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (5 munud)
- Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Mark Isherwood (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Heledd Fychan (Canol De Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch amserlen y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr ymateb gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a chytunodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

### 4.2 Amserlen ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Biliau Diwygio er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol a gohiriodd benderfyniad ar amserlen y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor hwnnw, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.3 Amserlen ar gyfer y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol a gohiriodd benderfyniad ar amserlen y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor hwnnw, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

# 5 Gwaith Gweithdrefnol

## 5.1 Gweithdrefnau sy'n ofynnol er mwyn craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

Yn dilyn argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, trafododd y Pwyllgor Busnes gynigion ar gyfer:

- diwygio'r Rheolau Sefydlog i sicrhau bod dogfennau sy'n cyd-fynd â Biliau ac Is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad o effaith Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020;
- Rheol Sefydlog newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd am effaith deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU a allai, yn rhinwedd y Ddeddf Marchnad Fewnol, effeithio ar werthu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru; a
- hysbysu am effaith fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan ar ddeddfwriaeth y Senedd.

Dywedodd y Trefnydd nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cynigion yn angenrheidiol ar y sail nad yw'n ystyried bod Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig yn cael effaith ar ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ofyn am farn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Fforwm y Cadeiryddion am y cynigion, gyda'r bwriad o ddychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.